INSHOU16

Hyrwyddo arferion diogel, moesegol a chynaliadwy ym maes eich cyfrifoldeb

Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â sut rydych chi'n gweithio gyda chydweithwyr a chwsmeriaid mewn ffordd sy'n hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth. Mae hefyd yn ymwneud â sicrhau bod eich gweithle, maes eich cyfrifoldeb a'ch arferion chi a'ch cydweithwyr yn ddiogel, yn foesegol ac yn gynaliadwy.

Meini prawf perfformiad

Rhaid i chi allu:

1. gweithio gyda chydweithwyr a chwsmeriaid yn unol â'ch polisi a'ch deddfwriaeth cydraddoldeb ac amrywiaeth sefydliadol
2. rhoi gwybodaeth a chymorth perthnasol i alluogi cydweithwyr a chwsmeriaid i ddeall eu hawliau a'u cyfrifoldebau
3. hyrwyddo arferion diogel, moesegol a chynaliadwy ym maes eich cyfrifoldeb yn unol â'ch gofynion sefydliadol
4. datblygu a chynnal perthnasoedd gwaith cynhyrchiol gyda chydweithwyr a chwsmeriaid
5. asesu risgiau i'ch diogelwch a'ch diogeledd personol sy'n gysylltiedig â'ch gwaith a chymryd y camau gofynnol i leihau'r risgiau hyn
6. cyflawni eich gwaith yn unol â chodau ymddygiad, deddfwriaeth, safonau moesegol ac arferion da cydnabyddedig
7. cynnal cyfrinachedd a phreifatrwydd cwsmeriaid i gydymffurfio â safonau sefydliadol eich gwasanaeth i gwsmeriaid a'r ddeddfwriaeth diogelu data berthnasol
8. nodi eich cyfrifoldebau o dan ddeddfwriaeth iechyd a diogelwch berthnasol a pholisi iechyd a diogelwch eich sefydliad
9. defnyddio arbenigedd pan fo angen mewn perthynas ag iechyd a diogelwch
10. cadarnhau bod system ar waith ar gyfer nodi peryglon ac asesu risgiau ym maes eich cyfrifoldeb a chymryd camau i liniaru'r rhain

Gwybodaeth a dealltwriaeth

Mae angen i chi wybod a deall:

1. y gofynion cyfreithiol a sefydliadol perthnasol ar gyfer cydraddoldeb, amrywiaeth a gwahaniaethu
2. sut i hyrwyddo arferion diogel, moesegol a chynaliadwy ym maes eich cyfrifoldeb
3. y gofynion cyfreithiol a'r prosesau sefydliadol perthnasol sy'n ymwneud â diogelu data, cyfrinachedd a rhannu gwybodaeth
4. sut i weithio gyda chydweithwyr a chwsmeriaid i ddatrys gwrthdaro
5. sut i gyfathrebu i sicrhau bod barn a'r hyn sydd orau gan gydweithwyr a chwsmeriaid yn cael eu hystyried
6. y safonau moesegol neu'r codau ymarfer perthnasol sy'n ymwneud â maes eich gwaith
7. y ddeddfwriaeth berthnasol a'r polisïau sefydliadol sy'n ymwneud ag iechyd a diogelwch
8. sut i asesu a rheoli risg wrth gyflawni eich rôl
9. maint a therfynau eich rôl a'ch cyfrifoldeb

INSHOU16

Hyrwyddo arferion diogel, moesegol a chynaliadwy ym maes eich cyfrifoldeb

Datblygwyd gan	Instructus
Fersiwn rhif	1
Dyddiad cymeradwyo	Mawrth 2019
Indicative Review Date	Ionawr 2024
Dilysrwydd	ArHynOBryd
Statws	Gwreiddiol
Sefydliad cychwynnol	Instructus
RCU gwreiddiol	ASTH301
Galwedigaethau perthnasol	Cynorthwy-ydd Cynnwys Preswylwyr; Cynorthwy-ydd Tai; Cynorthwy-ydd Cymdogaeth; Gweinyddwr Tai; Cynorthwy-ydd Gosod Eiddo; Rheolwr Portffolio Cynorthwyol (heb bortffolio); Trafodwr Gosod Llety; Cynorthwy-ydd Refeniw; Cynorthwy-ydd Atgyweirio
Cyfres/Set	Tai
Geiriau Allweddol	cydweithwyr; risg; diogelwch; cymorth; deddfwriaeth; cydraddoldeb; amrywiaeth; amgylchedd; diogel; trefnu